# Cafcass Cymru: Taflen Wybodaeth Cyfraith Breifat
## Rôl Cafcass Cymru mewn Achosion Cyfraith Breifat
## (Ionawr 2024)

Weithiau ni all teuluoedd sydd wedi gwahanu gytuno ar ba drefniadau sydd orau i'w plant, ac felly mae rhywun yn y teulu, gan amlaf yn rhiant, yn gwneud cais i'r llys teulu am orchymyn llys. Mae'r llys fel arfer yn gofyn i Cafcass Cymru ddarparu adroddiad am y teulu, er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw orchmynion llys a wneir yn ddiogel, ac er lles gorau'r plant.

## Beth yw rôl Cafcass Cymru a'r hyn sy'n digwydd pan wneir cais cyfraith breifat?

- Mae Cafcass Cymru yn rhoi llais i bob plentyn yng Nghymru sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teuluol. Prif gyfrifoldebau Cafcass Cymru yw:
  - hyrwyddo lles plant
  - rhoi cyngor i unrhyw lysoedd am geisiadau a wneir iddo
  - helpu plant i gael eu cynrychioli mewn trafodion
  - darparu gwybodaeth a chyngor i blant
- Pan fydd y llys teulu yn derbyn ffurflen gais cyfraith breifat, fel arfer caiff hyn ei anfon atom i baratoi adroddiad.
- Mae'r math o adroddiad y mae Cafcass Cymru yn ei baratoi a'r broses llys ar gyfer eich teulu yn dibynnu ar ba lys rydych chi'n gwneud cais iddo a ble yng Nghymru rydych chi'n byw. Y rheswm am hyn yw bod rhai llysoedd yng Nghymru yn rhan o beilot braenaru'r Dull Ymchwilio ('Braenaru'), tra bod llysoedd eraill yn gweithredu o dan y gyfraith breifat arferol Rhaglen Trefniadau Plant (CAP).
- Bydd Cafcass Cymru yn dyrannu ymarferydd i weithio gyda'ch teulu a pharatoi adroddiad ar gyfer y llys. Fel arfer, mae'r oedolion sy'n cymryd rhan hefyd yn derbyn copi. Bydd yr adroddiad yn helpu'r llys i benderfynu sut i reoli'r achos, a bydd yr oedolion wedyn yn derbyn gorchymyn llys sydd naill ai'n gofyn iddynt fynd i wrandawiad llys a/neu wneud cyfarwyddiadau eraill.
- Mae'r adroddiadau gwahanol y gallai Cafcass Cymru eu paratoi yn cael eu hesbonio isod. Weithiau, os oes gan blant weithiwr cymdeithasol eisoes o'r gwasanaethau plant, gallai'r llys ofyn i'r gwasanaethau plant baratoi'r adroddiad, yn lle Cafcass Cymru.
- Pa bynnag broses llys y mae eich teulu'n rhan ohoni, mae nodau Cafcass Cymru yr un fath - gweithio'n barchus ac agored gyda'ch teulu, a helpu'r llys i wneud penderfyniadau amserol sy'n:
  - yn ddiogel i bawb yn y teulu
  - er lles pennaf plant
  - ystyried dymuniadau a theimladau plant a,
  - osgoi oedi.

## Mae cais wedi ei wneud mewn Llys 'Braenaru' - beth sy'n digwydd nawr?

- Nod Braenaru yw lleihau'r amser y mae teuluoedd yn ymwneud â'r llys teulu, tra'n blaenoriaethu diogelwch plant a'u rhieni/gofalwyr a hyrwyddo dull datrys problemau o wneud trefniadau plant. Os ydych wedi bod yn rhan o unrhyw achos cyfraith breifat o'r blaen, byddwch yn sylwi ar wahaniaeth yn eich ymwneud â'r llys teulu a Cafcass Cymru.
- Mae'r adroddiad y mae'r llys yn gofyn i Cafcass Cymru ei ysgrifennu yn cael ei alw'n Adroddiad Effaith ar Blant. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn cael ei ffeilio gyda'r llys cyn i'r llys wneud unrhyw benderfyniadau.
- Fel cam cyntaf, bydd yr ymarferydd a ddyrannwyd yn casglu gwybodaeth o wiriadau diogelwch gyda'r heddlu, awdurdodau lleol ac yn siarad â'r oedolion dan sylw am y cais a'r hyn sydd wedi dod â nhw i'r llys teulu.
- Byddwn yn gwrando ar y rhesymau pam mae'r teulu wedi gofyn i'r llys wneud gorchymyn, ac unrhyw bryderon diogelwch neu les sydd ganddyn nhw neu'r plant.
- Byddwn yn gofyn i'r oedolion feddwl pa drefniadau fyddai'n gweithio orau i'w plant, a beth sydd ei angen ar y plant er mwyn bod yn ddiogel a diwallu eu buddiannau gorau. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, byddwn yn helpu'r teulu i gytuno ar drefniadau.
- Efallai y bydd ein gwaith gyda chi yn cynnwys sawl cyfarfod neu drafodaeth gydag aelodau'r teulu drwy alwad fideo, neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.
- Un o nodau pwysig Braenaru yw cryfhau Llais y Plentyn, drwy sicrhau bod y llys ac oedolion yn gallu canolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r plant yn y teulu o'r dechrau, gan sicrhau bod plant yn cael cynnig cyfle i ddweud eu dweud, a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt. Fel arfer, bydd ymarferydd Cafcass Cymru yn siarad â phlant y teulu cyn ysgrifennu'r Adroddiad ar Effaith ar Blant, oni bai bod rhesymau na fyddai hyn yn briodol neu er eu lles pennaf.
- Gan ddibynnu ar y materion i'ch teulu, efallai y byddwn hefyd am siarad ag eraill sy'n ymwneud â hwy, megis ysgol y plant, neu wasanaethau sy'n cefnogi rhiant/gofalwr. Os ydych chi wedi profi cam-drin domestig neu'n profi cam-drin domestig, bydd ymarferydd Cafcass Cymru yn siarad â chi am wneud atgyfeiriad i wasanaeth cam-drin domestig fel y gallant gynnig cymorth a chynnal asesiad risg arbenigol gyda chi.
- Bydd yr Adroddiad Effaith ar Blant yn crynhoi'r gwaith rydym wedi'i wneud. Anfonwn yr adroddiad i'r llys, ac mae'r oedolion sy'n rhan o'r achos fel arfer yn derbyn copi. Yna bydd y llys yn penderfynu ar y camau nesaf ac yn anelu at wneud penderfyniad i'r plant cyn gynted â phosibl. Weithiau mae angen mwy o wybodaeth ar y llys a gallai ofyn i Cafcass Cymru neu asiantaeth arall am adroddiad pellach.

## Mae cais wedi ei wneud mewn Llys Rhaglen Trefniadau Plant (CAP) - beth sy'n digwydd nawr?

- Mae'r llys fel arfer yn gofyn i Cafcass Cymru baratoi adroddiad byr o'r enw Adroddiad Ymholiadau Diogelu (SER), sy'n canolbwyntio ar a oes unrhyw bryderon diogelu i'r plant neu unrhyw gyfranogwr sy'n oedolion. Mae'r adroddiad fel arfer yn cael ei anfon at y cyfranogwyr sy'n oedolion yn ogystal â'r llys.
- Bydd ymarferydd Cafcass Cymru yn trefnu cyfweliad dros y ffôn gyda phob oedolyn sy'n cymryd rhan a bydd yn holi am unrhyw anawsterau neu bryderon cyfredol am ddiogelwch eu hunain neu eu plant, y trefniadau arferol ar gyfer y plant, a'r wybodaeth a gesglir o wiriadau diogelwch gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol.

- Mae'r SER yn hysbysu'r llys a oes unrhyw faterion diogelu ac a yw'r achos yn addas i'w restru ar gyfer Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA). Dyma wrandawiad lle mae swyddog Cafcass Cymru ar gael i geisio helpu'r oedolion i ddod i gytundeb am y cais.
- Os yw'r SER yn nodi materion diogelu, neu resymau eraill nad yw FHDRA yn addas i'ch teulu, mae'r llys yn debygol o restru'r cais am wrandawiad Cyfarwyddyd, a/neu gallai orchymyn Cafcass Cymru, neu awdurdod lleol, i ddarparu adroddiad Dadansoddiad o'r Effaith ar Blant (CIA).
- Mae CIA yn adroddiad manylach sy'n ystyried dymuniadau, teimladau ac anghenion y plant ynghyd â barn a materion yr oedolion yn y teulu. Bydd yr ymarferydd a ddyrannwyd eisiau clywed am bryderon yr oedolion a'r plant a'r hyn y credant ddylai ddigwydd, a gall hefyd siarad â phobl eraill sy'n cefnogi eich teulu (fel ysgol y plant neu wasanaethau cymorth eraill). Byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r teulu ac yn eu helpu i ddod i gytundeb diogel os yw hyn yn bosibl.
- Bydd y CIA yn cael ei anfon i'r llys a'r oedolion dan sylw a bydd y llys fel arfer yn gofyn i'r oedolion fynychu gwrandawiad llys er mwyn datrys yr achos.

## Beth allaf ei ddisgwyl gan ymarferydd Cafcass Cymru?

- Gallwch ddisgwyl i ymarferydd Cafcass Cymru sefydlu a chynnal perthynas broffesiynol barchus gydag aelodau'r teulu, ac y byddant yn eich trin â pharch a sensitifrwydd, gwrando arnoch ac yn egluro'n glir unrhyw wahaniaeth yn eu barn.
- Gallwch ddisgwyl i ymarferydd Cafcass Cymru ddiogelu pob plentyn a sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed, gan gymryd amser i wrando ar brofiadau a phryderon plant a'u deall.
- Gallwch ddisgwyl i ymarferydd Cafcass Cymru fod yn ymwybodol o effaith trawma a chydnabod y gall profiadau trawma blaenorol effeithio ar ymatebion unrhyw unigolyn, yn enwedig goroeswyr cam-drin domestig a mathau eraill o niwed, a chymryd gofal nad yw eu hymarfer yn ail-drawma dioddefwyr-oroeswyr.

## Am ba hyd y bydd y trafodion yn para?

- Mae pob teulu'n unigol, ac felly bydd yn cymryd gwahanol gyfnodau o amser cyn i'r llys allu gwneud penderfyniad terfynol, bydd y llys yn penderfynu ar yr amserlen.
- Bydd y llys yn gwneud penderfyniad terfynol ar ôl darllen pob adroddiad a gwrando ar yr hyn sydd gan bawb i'w ddweud. Weithiau bydd angen mwy nag un adroddiad ar y llys ac efallai y bydd sawl gwrandawiad llys.
- Mewn achosion arbennig o gymhleth, gall y llys wneud y plentyn yn barti i achos o dan Reol 16.4. Mae rhagor o wybodaeth am apwyntiadau Rheol 16.4 ar gael yma i oedolion ac yma i blant.
- Wrth ddod i benderfyniad, bydd y llys yn talu sylw i ddymuniadau a theimladau'r plentyn ond efallai na fydd y penderfyniad terfynol bob amser yn adlewyrchu'r hyn y mae'r plentyn am ei wneud. Bydd y llys yn gwneud ei benderfyniad yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r plentyn ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael a bydd yn nodi hyn mewn 'gorchymyn llys'.